# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## EDT(2) 06-06(p.6)

### Dyddiad: 29 Mawrth 2006
### Amser: 9.00am tan 12.25pm
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Cymorth Rhanbarthol - Canllawiau'r DU

#### Cefndir

1. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn cynnal adolygiad o'r Ardaloedd a Gynorthwyir mewn ymateb i ganllawiau newydd y Comisiwn Ewropeaidd ar gymorth rhanbarthol. Ar 15 Chwefror, cyhoeddodd yr Adran Masnach a Diwydiant y ddogfen ymgynghori atodedig yn ceisio safbwyntiau ar yr Ardaloedd a Gynorthwyir a nodwyd ar gyfer 2007 hyd at 2013.

2. Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhan o ymgynghoriad a rennir yn ddwy ran.

Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar ran un yw 19 Ebrill 2006. Yn dilyn rhan 1 (9 wythnos), bydd y Llywodraeth yn ystyried ymatebion rhanddeiliaid ac yn cynhyrchu map drafft o'r Ardaloedd newydd a Gynorthwyir yn ystod Haf 2006. Bydd ail ran yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y map drafft, a rhagwelir y bydd yn para am gyfnod o bedair wythnos.

#### Camau i'r Pwyllgor Pwnc eu cymryd

3. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a yw'n dymuno cyflwyno ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad.

**Christine Gwyther AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**